

Dyfal donc a dyrr y garreg

Gwaith Comisiynydd y Gymraeg yn sicrhau hawliau siaradwyr Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol 2012–19

Lowri W. Williams



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Addasiad Cymraeg o bennod a gyhoeddwyd yn y gyfrol *Constitutional Pioneers: Language Commissioners and the Protection of Official, Minority and Indigenous Languages* (Montreal, Canada: Éditions Yvon Blais, 2019).

Bu'r diwydiannau glo a llechi yn ganolog i lunio'r Gymru fodern yr ydym yn byw ynddi heddiw. Cyfrannodd profiadau a gweithredoedd y bobl a oedd yn byw yn y cymunedau hynny, a oedd yn dibynnu ar gloddio am lo a llechi, yn helaeth at sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Fel Gweinidog Iechyd yn Llywodraeth Prydain rhwng 1945 a 1951, bu Aneurin Bevan, y cyn-löwr a ddaeth yn Aelod Seneddol y Blaid Lafur dros Lynebwy ym meysydd glo'r de, yn allweddol i sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Roedd ganddo brofiad uniongyrchol o'r ffordd yr oedd cymdeithas oedd yn cynnig darpariaeth feddygol gymunedol, a ariannwyd yn lleol drwy gyfraniadau unigolion, yn darparu gofal iechyd i filoedd o drigolion lleol. Mae disgrifio'r GIG fel craig sy'n gefn i bobl heddiw, yn yr un modd ag y mae dweud bod llechi a glo wedi bod yn gerrig sylfaen i gymunedau Cymru, yn ddatganiad beiddgar, ond pan ddathlodd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) 70 mlynedd o fodolaeth yn 2018, rhoddwyd llawer o sylw i bwysigrwydd sylfaenol y GIG ym mywydau pob dydd pobl Prydain. Mae modd dwyn i gof yr hen ddihareb 'dyfal donc a dyrr y garreg', sy'n cyfleu pwysigrwydd dyfalbarhau, a bod y dyfalbarhad hwnnw'n talu ar ei ganfed yn y pen draw. Mae'n ddihareb addas iawn wrth feddwl am y broses o sicrhau hawliau siaradwyr Cymraeg i dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Y GIG yng Nghymru

Cafodd y pŵer i ddeddfu a phennu polisiau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â'r Gymraeg, eu datganoli i Gymru yn dilyn sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1999. Mae datganoli pwerau i Gymru yn broses barhaus¹ ac o'r herwydd mae'n gryn destun trafod, yn enwedig felly o ganlyniad i bleidlais refferendwm Brexit yn 2016.² Pan gafodd y GIG ei lansio roedd yn seiliedig ar dair egwyddor graidd sy'n parhau i'w lywio hyd heddiw. Yn gyntaf, ei fod yn diwallu anghenion pawb; yn ail, ei fod am ddim yn y man y'i darperir, ac yn olaf, ei fod yn seiliedig ar angen clinigol pobl ac nid ar eu gallu i dalu. Yng Nghymru, ariennir y GIG gan Lywodraeth Cymru. Caiff ei wasanaethau eu darparu drwy saith bwrdd iechyd a thair ymddiriedolaeth y GIG. Darperir gwasanaethau gofal sylfaenol gan feddygon teulu a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill mewn canolfannau iechyd a meddygfeydd ledled Cymru. Darperir gofal eilaidd mewn ysbytai a chan wasanaethau ambiwlans. Fel arfer, ni chaiff cleifion fynediad uniongyrchol at ymgynghorwyr mewn ysbytai gan fod meddygon teulu yn rheoli'r mynediad at ofal eilaidd. Caiff gofal trydyddol ei ddarparu gan ysbytai sy'n trin mathau arbennig o salwch, fel canser. Fel arfer, darperir gwasanaethau gofal cymunedol mewn partneriaeth â gwasanaethau cymdeithasol lleol a ddarperir yn bennaf gan 22 awdurdod lleol Cymru. Mae'r rhain yn cwmpasu gwasanaethau ar gyfer plant, oedolion ac iechyd meddwl. Maent yn darparu gofal naill ai'n uniongyrchol neu drwy

¹ Ar adeg ysgrifennu'r papur hwn roedd Aelodau'r Cynulliad wedi pleidleisio i ganiatáu i Gomisiwn y Cynulliad gyflwyno *Bil Senedd ac Etholiadau Cymru (Cymru)* ddechrau 2019. Ymhlith y newidiadau a gynigir mae newid enw'r Cynulliad i'r Senedd a gostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Cynulliad i 16. Daw'r pwerau i ddeddfu ar y materion hyn o ganlyniad i *Ddeddf Cymru 2017* sy'n darparu model cadw pwerau newydd ac sy'n rhoi cyfrifoldeb am y trethi Cymreig cyntaf ers 800 o flynyddoedd, gan gynnwys pwerau i amrywio treth incwm.

² Am ragor o ddeunydd darllen am ddatganoli yng Nghymru, trowch at y tudalennau 'Amdanom ni' ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru: www.cynulliad.cymru (cyrchwyd 22 Chwefror 2019).

gyfrwng sefydliadau trydydd parti dan gontract. Er bod gwahanol sefydliadau yn darparu'r gofal, mae strategaethau ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn ceisio sicrhau bod y ddau fath o ofal yn cael eu cyflwyno fel un pecyn cyd-gysylltiedig o wasanaethau. Mae strategaeth ddiweddaraf y Llywodraeth, sef *Cymru Iachach: ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol*, er enghraifft, yn nodi gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru yn y dyfodol o 'system gyfan iechyd a gofal cymdeithasol'.³

Deddfwriaeth o blaid y Gymraeg

Pan gafodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei sefydlu, roedd sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru yn ddarostyngedig i *Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993*. Un o ddeddfau Senedd San Steffan oedd hon a oedd yn gweithredu'r egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg 'ar y sail eu bod yn gyfartal' wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Roedd hefyd wedi sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg a oedd â'r dasg o hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg. Roedd y Bwrdd hefyd yn gallu paratoi a chymeradwyo cynlluniau iaith gyda sefydliadau statudol perthnasol yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol. Roedd y cynlluniau iaith hyn yn nodi sut y byddai pob sefydliad yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn unol â'r egwyddor o gydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Er bod cyfres o ganllawiau ar gael ar gyfer eu paratoi, roedd pob cynllun iaith yn unigryw i bob sefydliad. Er bod sefydliadau'n gweithredu yn yr un maes gwaith neu yn yr un ardal ddaearyddol, roedd lefel y ddarpariaeth a oedd ar gael yn Gymraeg yn amrywio rhwng pob sefydliad. Golygai hyn fod diffyg cysondeb yn y gwasanaethau y gallai'r cyhoedd eu disgwyl gan bob sefydliad. Nid oedd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg bwerau gorfodi, monitro na rheoleiddio ychwaith. Nid oedd modd iddo ymdrin yn effeithiol ag unrhyw fethiannau mewn perthynas â chynlluniau iaith, felly petai methiannau o'r fath yn bodoli, a bod diffyg cydymffurfiaeth â'r cynlluniau iaith, roedd hi'n anodd iawn i'r Bwrdd ymyrryd mewn unrhyw ffordd a fyddai'n arwain at newid. Ei unig ddewis oedd cyfeirio materion at Ysgrifennydd Gwladol Cymru, neu, yn dilyn datganoli, at Weinidogion Cymru.

Nid oes amheuaeth bod Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn gam pwysig ar y daith tuag at sicrhau hawliau siaradwyr Cymraeg gan ei bod yn rhoi'r cyfrifoldeb ar gyrrff cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau yn hytrach nag ar unigolion i ofyn am y gwasanaethau hynny. Fodd bynnag, daeth ei gwendidau'n fwyfwy amlwg gydag amser. Addunedodd Llywodraeth glymblaid Plaid Cymru a Llafur 2007–11, sef Llywodraeth Cymru'n Un, i 'geisio mwy o gymhwysedd deddfwriaethol o ran y Gymraeg' yng *Nghynllun Cyflenwi Cymru'n Un*.⁴ Canfuwyd maes o law fod y cam hwn yn llawn anawsterau, yn enwedig o ganlyniad i'r weithdrefn Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol.⁵ Pasiwyd Mesur y

³ Llywodraeth Cymru, *Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol* (2018), t. 3: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/cymru-iachach-ein-cynllun-iechyd-a-gofal-cymdeithasol.pdf> (cyrchwyd 31 Gorffennaf 2019).

⁴ *Cynllun Cyflenwi Cymru'n Un 2007–2011*, t. 73.

⁵ Daeth Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD) i fodolaeth o ganlyniad i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Roeddent yn caniatáu i'r awdurdod deddfwriaethol gael ei drosglwyddo o Senedd y Deyrnas Unedig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Fodd bynnag, roedd yn rhaid i'r GCD gael eu cymeradwyo gan y

Gymraeg (Cymru) 2011⁶ ar 10 Rhagfyr 2010 ac fe'i deddfwyd ar 9 Chwefror 2011, dim ond tri mis cyn cynnal etholiadau nesaf y Cynulliad ar 5 Mai 2011.

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Y ddeddfwriaeth hon oedd y darn cyntaf o ddeddfwriaeth i gael ei greu yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru i warchod y Gymraeg. Yn anad dim, rhoddodd statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, a thrwy hynny unioni'r anghyfiawnder a wnaed gan Ddeddf Uno Cymru a Lloegr 1536, a oedd yn datgan bod yn rhaid i unigolyn allu siarad Saesneg er mwyn dal swydd gyhoeddus yng Nghymru. Creodd y Mesur hefyd swydd Comisiynydd y Gymraeg. Rhoddwyd y dasg i'r Comisiynydd o hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, ac mae'r Mesur yn amlinellu'r camau y mae'n rhaid i'r Comisiynydd eu cymryd, neu y gall eu cymryd, yn rhinwedd ei ddyletswyddau.

Mae adran 4 o'r Mesur yn nodi bod gan y Comisiynydd y pŵer i wneud unrhyw beth sy'n briodol ym marn y Comisiynydd er mwyn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, neu weithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r Mesur yn amlinellu gweithdrefn i'r Comisiynydd osod dyletswydd ar nifer o gyrff cyhoeddus yng Nghymru a enwir yn y Mesur i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Nod y safonau yw ei gwneud yn glir i sefydliadau beth yw eu dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg a'i gwneud yn gliriach i siaradwyr Cymraeg pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg. Maent hefyd yn anelu at sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg ar gael i'r cyhoedd mewn modd mwy cyson, ac at wella eu hansawdd. Mae'r Mesur hefyd yn rhoi'r pŵer i'r Comisiynydd ymchwilio i gŵynion ynglŷn â'r rhyddid i gyfathrebu yn Gymraeg gyda phobl eraill. Cafodd Tribiwnlys y Gymraeg hefyd ei sefydlu gan y Mesur â'r diben o ddelio ag apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Comisiynydd mewn perthynas â safonau'r Gymraeg.

Comisiynydd cyntaf y Gymraeg a'i hymholiad i'r Gymraeg mewn gofal sylfaenol

Penodwyd Meri Huws fel Comisiynydd cyntaf y Gymraeg ddiwedd 2011 ac agorwyd ei swyddfa ar 1 Ebrill 2012.⁷ Â'i chefnidir mewn gwaith cymdeithasol, daeth yn amlwg o'r dechrau fod y Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn mynd i fod yn thema bwysig yn ystod ei hamser fel Comisiynydd. Yn wir, erbyn diwedd 2012 roedd cynlluniau

Cynulliad, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y ddau Dŷ Seneddol, ac yna'r Frenhines yn y Cyngor. Yn ymarferol felly roedd yn rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ofyn am ganiatâd gan Seneddau San Steffan i gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol mewn meysydd a oedd eisoes wedi'u datganoli i Gymru.

⁶ <https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/1/contents/enacted/welsh> (cyrchwyd 30 Hydref 2018).

⁷ Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn pennu na all tymor y Comisiynydd fod yn hwy na 7 mlynedd. O ganlyniad, bydd tymor Meri Huws fel Comisiynydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2019. Ar adeg ysgrifennu'r papur hwn, roedd Aled Roberts wedi'i benodi'n Gomisiynydd y Gymraeg am gyfnod o saith mlynedd o 1 Ebrill 2019.

ar y gweill i gynnal ymholiad⁸ i'r Gymraeg mewn gofal sylfaenol. Nod yr ymholiad oedd cynnig dadansoddiad clir, ar sail tystiolaeth ansoddol a meintiol gadarn, o hyd a lled profiad cleifion o'r ddarpariaeth Gymraeg mewn gwasanaethau gofal sylfaenol.

Profodd yr ymholiad i fod yn ddarn pwysig o dystiolaeth am brofiadau siaradwyr Cymraeg o iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig yn sgil ehangder y deunydd a gasglwyd. Cynhaliwyd digwyddiadau cyhoeddus a digwyddiadau â rhanddeiliaid i rannu gwybodaeth a cheisio barn; cynhaliwyd amrywiol gyfarfodydd rhwng y Comisiynydd a'i swyddogion a chyrrff perthnasol, a chafwyd sylw yn y wasg a'r cyfryngau lleol a chenedlaethol ac ar y cyfryngau cymdeithasol. At ei gilydd, cafwyd 170 o ddarnau o dystiolaeth gan aelodau o'r cyhoedd a gysylltodd â'r Comisiynydd; darparodd 26 o sefydliadau rhanddeiliaid dystiolaeth ysgrifenedig ffurfiol a rhoddodd 16 o randdeiliaid dystiolaeth wyneb yn wyneb i Banel yr Ymholiad a gynullwyd gan y Comisiynydd. Yn ogystal, er mwyn sicrhau bod llais y claf yn ganolog i'r gwaith, comisiynwyd cwmni ymchwil annibynnol i gynnal arolwg o 1000 o siaradwyr Cymraeg rhugl am eu profiadau o dderbyn neu fethu â derbyn gwasanaethau gofal sylfaenol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Serch hynny, ni chroesawyd yr ymholiad gan bawb oedd yn gysylltiedig â gofal sylfaenol, ac mae'r Comisiynydd yn cyfeirio at hyn yn y cyflwyniad i'r adroddiad terfynol. Roedd rhai, ond nid pob un, o'r cyrrff proffesiynol a oedd yn ymwneud â'r maes, er enghraifft, yn gwrthwynebu cylch gwaith yr ymholiad. Fel yr eglura Gwerfyl Wyn Roberts, a oedd yn darlithio ar y pryd yn Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd Prifysgol Bangor, roedd yn '[d]asg heriol, ac ystyried amrywiaeth amrediad a chymhlethdod y sector, ond amserol o ran cadarnhau blaenoriaeth y Comisiynydd i'r maes'.⁹

Cyhoeddwyd yr adroddiad, *Fy Iaith, Fy Iechyd: Ymholiad Comisiynydd y Gymraeg i'r Gymraeg mewn Gofal Sylfaenol*¹⁰ ym mis Mehefin 2014, ac roedd yn cynnwys 33 o argymhellion i Weinidogion Cymru ac eraill ar sut i wella gwasanaethau gofal sylfaenol i siaradwyr Cymraeg. Yr argymhelliad cyntaf oedd yr angen i Weinidogion Cymru ddarparu adroddiad i Gomisiynydd y Gymraeg cyn pen chwe mis ar ôl cyhoeddi'r ymholiad, mewn ymateb i'r casgliadau a'r argymhellion. Sefydlodd yr adroddiad, mewn modd digamsyniol, yr egwyddor bod derbyn gwasanaethau Cymraeg yn angen *clinigol* i rai cleifion, a bod methu â'u darparu yn peryglu ansawdd y gwasanaeth a gynigir ac, o ganlyniad, urddas a pharch yr unigolion hynny. Canfu'r adroddiad fod siaradwyr Cymraeg yn cael y rhan fwyaf o'u profiadau gofal sylfaenol drwy gyfrwng y Saesneg ac

⁸ Mae adran 7 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn datgan y caiff y Comisiynydd gynnal ymholiad i unrhyw fater sy'n ymwneud ag unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Comisiynydd. Mae Atodlen 2 yn gwneud darpariaeth atodol ynghylch cynnal ymholiadau gan gynnwys y gofyniad i'r Comisiynydd baratoi cylch gorchwyl cyhoeddedig mewn ymgynghoriad â phersonau perthnasol penodedig; bod rhaid i'r Comisiynydd wneud trefniadau ar gyfer rhoi cyfle i bersonau wneud sylwadau mewn perthynas ag ymholiadau; bod rhaid i'r Comisiynydd baratoi adroddiad o'i ganfyddiadau ar unrhyw ymholiad yn ogystal â'r broses gysylltiedig.

⁹ Sylwadau a dderbyniwyd mewn e-bost gan Gwerfyl Wyn Roberts ar 28 Tachwedd 2018.

¹⁰ Comisiynydd y Gymraeg, *Fy Iaith, Fy Iechyd: Ymholiad Comisiynydd y Gymraeg i'r Gymraeg mewn Gofal Sylfaenol* (2014)

<http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Adroddiad%20Lawn%20Ymholiad%20Iechyd.pdf> (cyrchwyd 5 Rhagfyr 2018).

nad oedd tystiolaeth bod y sector gofal sylfaenol yn gwneud unrhyw ymdrech systematig i sefydlu anghenion iaith cleifion. Roedd hefyd yn tynnu sylw at ddisgwyliadau isel siaradwyr Cymraeg a bod nifer o bobl yn gwneud y tro â gwasanaethau gofal sylfaenol yn Saesneg er y byddai'n well ganddynt siarad Cymraeg. Drwy'r adroddiad, amlygwyd diffyg cynnig rhagweithiol yn y sector a thynnwyd sylw at yr angen i edrych ar y ffactorau sy'n sail i'r angen i ddarparwyr gynnig gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol. Agwedd allweddol ar y drafodaeth ynghylch y cynnig rhagweithiol oedd y gymhariaeth a wnaed â gweithrediad y cynnig rhagweithiol yng Nghnanada o ganlyniad i'w Deddf Ieithoedd Swyddogol. Roedd yr adroddiad hefyd yn ystyried cynllunio gwasanaethau a'r gweithlu a'r angen am addysg a chynllunio strategol, yn ogystal â phwysigrwydd arweinyddiaeth ac atebolrwydd. Ystyriwyd hefyd y dystiolaeth a gynigiwyd ynghylch deddfwriaeth a pholisi a daeth i'r casgliad 'p'un a oes cytundeb bod deddfwriaeth a pholisi yn ddigonol ai peidio mae'r neges yn glir bod bwlch rhwng deddfwriaeth a pholisi sy'n ymwneud â'r Gymraeg a gweithredu'r gofynion hynny ar lawr gwlad'.¹¹ Roedd y bylchau yn seilwaith y dechnoleg hefyd yn fater a amlygwyd gan yr adroddiad a nododd fod systemau TG yn rhwystr gan nad oeddent yn hwyluso'r llif gwybodaeth rhwng darparwyr, gan olygu nad oedd yn bosibl trefnu gofal priodol yn yr iaith ofynnol ymlaen llaw mewn llefydd fel ysbytai a chlinigau.

Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Comisiynydd ar y Gymraeg mewn gofal sylfaenol

Ar 10 Rhagfyr 2014, cyhoeddodd Mark Drakeford AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol¹² ar y pryd, ymateb Llywodraeth Cymru i ymholiad Comisiynydd y Gymraeg.¹³ Roedd yr ymateb yn datgan ymrwymiad y Llywodraeth i ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion a'r bwriad i fonitro'r modd y cânt eu gweithredu drwy gynllunio gweithredu mewnol manwl. Ystyriai'r Comisiynydd hwn yn gam cadarnhaol gan y Llywodraeth ac yn arwydd ei bod wedi deall a gwerthfawrogi canfyddiadau'r adroddiad. Mae hynny, law yn llaw â'r camau cadarnhaol eraill a gymerwyd yn ystod cyfnod Mark Drakeford fel y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a drafodir isod, hefyd yn dyst i bwysigrwydd arweinyddiaeth wleidyddol wrth newid agweddau tuag at bolisi iaith. Anfonwyd yr adroddiad hefyd at randdeiliaid a wahoddwyd i roi sylwadau ar ganfyddiadau'r adroddiad. O'r un ar ddeg sefydliad a ymatebodd, a oedd yn cynnwys chwe bwrdd iechyd, un ymddiriedolaeth iechyd, un pwyllgor iechyd lleol, dau goleg iechyd brenhinol a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, yr oedd pob un ohonynt, heblaw un, yn gadarnhaol ac yn cytuno bod angen gwella gwasanaethau gofal sylfaenol yn Gymraeg, a gwelwyd bod cyfleoedd i wneud hynny yn unol â chanfyddiadau'r adroddiad.

Er bod *Fy Iaith, Fy Iechyd* yn adlewyrchu'n benodol sefyllfa'r iaith mewn gwasanaethau gofal sylfaenol, mae ei ganfyddiadau wedi llunio a bwydo i mewn i waith polisi dilynol y

¹¹ *Ibid.*, t. 111.

¹² Daeth y Gwir Anrh. Mark Drakeford yn Brif Weinidog Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2018.

¹³ <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-mateb-llywodraeth-cymru-i-fy-iaith-fy-iechyd-ymholiad-comisiynydd-y-gymraeg> (cyrchwyd 31 Gorffennaf 2019).

Comisiynydd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Caniataodd i'r Comisiynydd ddarparu tystiolaeth mewn meysydd ymchwiliadau cysylltiedig yn seiliedig ar ymchwil a thystiolaeth siaradwyr Cymraeg ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperir iddynt. Roedd hyn yn cynnwys gwaith craffu ar ddeddfwriaeth ac ymateb i ymgynghoriadau ac adolygiadau polisi fel yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru yn 2017.¹⁴ Problem gyffredinol sydd wedi effeithio ar allu'r Comisiynydd i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yw'r diffyg cyffredinol mewn ymchwil a data ar y defnydd o'r Gymraeg ym mhob maes, mater a ddaeth yn gynyddol amlwg wrth i'r Comisiynydd baratoi'r adroddiad 5-mllynedd cyntaf, a gyhoeddwyd yn 2016.¹⁵ Roedd y ffaith bod yr ymholiad yn un mor drylwyr a bod argymhellion yr adroddiad yn seiliedig ar ymchwil mor gynhwysfawr yn rhoi llawer iawn o hygredd i'r canfyddiadau. Yn ôl Gwerfyl Wyn Roberts, roedd yn cynnig 'tystiolaeth ymchwil gynhwysfawr sy'n adeiladu ar ganfyddiadau blaenorol, gan ddatgelu diffygion sylweddol yn narpariaeth y gwasanaethau Cymraeg, ac a ddyfynnir droeon mewn adroddiadau, polisiâu a rhaglenni hyfforddiant wedi hynny'.¹⁶

Mae'r perthnasau a ddatblygwyd yn ystod yr ymholiad ac a feithrinwyd wedyn drwy gyfarfodydd rheolaidd â sefydliadau ac unigolion yn y sector iechyd, fel rhan o swyddogaethau polisi a rheoleiddio'r Comisiynydd, hefyd wedi cyfrannu at waith y Comisiynydd yn y maes. Gallai rhywun fentro â dweud hefyd fod y cysylltiadau hyn, yn ogystal â chanfyddiadau'r ymholiad, wedi cyfrannu at greu rhywfaint o newid mewn agweddau a dealltwriaeth o'r angen am wasanaethau iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg. Gwnaeth yr Athro Ceri Phillips, Athro Economeg Iechyd a Phennaeth Coleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd ym Mhrifysgol Abertawe ac aelod o banel arbenigwyr yr ymholiad, grynhoi goblygiadau'r adroddiad fel a ganlyn:

Tynnodd *Fy Iaith, Fy Iechyd* sylw at yr angen i sicrhau bod yr iaith yn ffactor sy'n cyfrannu'n fawr yn ansawdd y gofal a ddarperir gan y gwasanaeth a'r farn o ansawdd a dderbyniwyd gan gleifion, gyda thystiolaeth yn sail sy'n tanategu safbwynt o'r fath. Roedd yr ymroddiad ymhlith yr holl ddeiliaid diddordeb, wnaeth roi tystiolaeth a barn i'r Panel, i sicrhau bod y fath safbwynt yn ymwneud â'r iaith Gymraeg yn cael mwy o ystyriaeth a sylw gan y gwasanaeth yn amlwg iawn.¹⁷

Mwy na geiriau a deddfwriaeth

Yn ei ymateb i'r adroddiad, cyfeiriodd Mark Drakeford at *Mwy na geiriau*, fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, a gyhoeddwyd yn 2012. Disodlwyd y

¹⁴ Gellir dod o hyd i holl sylwadau'r Comisiynydd mewn amrywiol feysydd ar wefan y Comisiynydd: <http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/Cymraeg/Adroddiadau/Cyhoeddiadau/Pages/Chwilio.aspx> (cyrchwyd 5 Rhagfyr 2018).

¹⁵ Comisiynydd y Gymraeg, *Sefyllfa'r Gymraeg 2012–2015: Adroddiad 5-mllynedd Comisiynydd y Gymraeg* <http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/Cymraeg/rhestr%20Cyhoeddiadau/adroddiad%205-mllynedd%20-%202015-year%20Report.pdf> (Cyrchwyd 18 Rhagfyr 2018).

¹⁶ Sylwadau a dderbyniwyd mewn e-bost gan Gwerfyl Wyn Roberts ar 28 Tachwedd 2018.

¹⁷ Sylwadau a dderbyniwyd mewn e-bost gan yr Athro Ceri Phillips ar 22 Tachwedd 2018.

fframwaith hwn gan y fframwaith strategol dilynol sef *Mwy na geiriau 2016–19*¹⁸ a ddatblygwyd gyda'r nod o adeiladu ar y strategaeth wreiddiol ac adlewyrchu newidiadau yn y cyd-destun gwleidyddol a deddfwriaethol. Fframwaith *Mwy na geiriau* yw'r strategaeth arweiniol sy'n gyrru'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Caiff y broses o'i weithredu ei goruchwyllo gan fwrdd partneriaeth o randdeiliaid y mae Comisiynydd y Gymraeg yn aelod ohono. Mae'r fframwaith yn nodi camau sy'n ymwneud â saith amcan ac yn rhoi cyfrifoldebau arweiniol i brif weithredwyr y GIG, cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol a Llywodraeth Cymru yn ogystal â chyrrff blaenllaw eraill yn y maes, gan bwysleisio felly pa mor bwysig yw sicrhau arweinyddiaeth a pherchnogaeth er mwyn arwain at welliant a newid. Mae'r amcanion hyn yn cwmpasu materion fel yr angen am arweinyddiaeth ar bob lefel, a phwysigrwydd polisi cenedlaethol i ysgogi newid. Yn allweddol, maent hefyd yn cynnwys camau i wella'r sylfaen wybodaeth yn y maes drwy fapio'r gweithlu ac anghenion iaith defnyddwyr gwasanaethau er mwyn llywio gwelliannau wrth gynllunio gwasanaethau a'r gweithlu. Caiff y Gymraeg yn y gweithle ac ym maes addysg broffesiynol eu pwysleisio yn y fframwaith hefyd ynghyd â gweithgareddau hyrwyddo ac ymgysylltu. Yn olaf, mae'r fframwaith yn gosod targedau ar gyfer rheoleiddio ac arolygu iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r fframwaith yn nodi pwysigrwydd cydnabod y cysyniad o anghenion ieithyddol yn rhan o ansawdd y gofal ac fel anghenraid clinigol i lawer. Nodir y dylai gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymorth fod ar gael yn y Gymraeg er mwyn cynnal safonau proffesiynol a bodloni anghenion iaith pobl yn ogystal â chydymffurfio â gofynion cyfreithiol a statudol. Cyfeirir hefyd at y Siarter Ewropeaidd ar gyfer leithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol¹⁹ sy'n sefydlu'r egwyddor bod yr hawl i ddefnyddio iaith ranbarthol neu leiafrifol mewn bywyd cyhoeddus a phreifat yn hawl ddiymwad.

Mae'r cyd-destun deddfwriaethol y datblygwyd fframwaith newydd *Mwy na geiriau* ynddo yn cynnwys dau ddarn pwysig o ddeddfwriaeth a gyflwynwyd gan Mark Drakeford yn ystod ei gyfnod fel Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol rhwng 2013 a 2016 sy'n cynnwys darpariaeth benodol yn ymwneud â darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014²⁰ yn cynnwys gofynion penodol yn ymwneud â'r Gymraeg gan gynnwys iaith asesiadau, ystyried y Gymraeg wrth gomisiynu a darparu gofal, ac mewn cynlluniau gofal unigol a baratoir yn unol â'r Ddeddf. Mae adran 14(1) yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol a phob bwrdd iechyd gyd-asesu ystod a lefel y gwasanaethau sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl yn ardal yr awdurdod lleol yn ogystal ag ystod a lefel y gwasanaethau ataliol sydd eu hangen. Rhaid iddynt hefyd asesu ar y

¹⁸ Llywodraeth Cymru, *Mwy na geiriau: Fframwaith Strategol Olyinol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol 2016–2019*:

<https://gov.wales/docs/dhss/publications/160317morethanjustwordscy.pdf> (cyrchwyd 19 Gorffennaf 2018).

¹⁹ <https://www.coe.int/en/Web/European-Charter-regional-or-Minority-Languages/Text-of-the-Charter> (cyrchwyd 22 Chwefror 2019).

²⁰ Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:

<https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents/enacted/welsh> (cyrchwyd 31 Gorffennaf 2019).

cyd y camau gweithredu sydd eu hangen i ddarparu ystod a lefel y gwasanaethau hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Ddeddf a'r Rheoliadau, a Rhan 2 o'r Cod Ymarfer, yn cynnwys manylion ynghylch paratoi cynlluniau gofal a chymorth a manylion penodol am hawliau a chyfrifoldebau pobl sydd angen gofal a chymorth i allu gwireddu eu canlyniadau personol. Mae'r Cod yn nodi pan fo pobl yn defnyddio gwasanaethau cymdeithasol a'u partneriaid i roi eu cynlluniau gofal a chymorth ar waith, 'y gall pobl ddisgwyl cyflawni canlyniadau personol sy'n adlewyrchu'r datganiadau canlyniadau llesiant cenedlaethol canlynol: [...] Rwy'n cael gofal a chymorth trwy'r Gymraeg os bydda i eu hangen'.²¹ Mae'r camau gweithredu a amlinellir yn y Ddeddf i asesu anghenion ieithyddol unigolion a chynllunio gwasanaethau ar sail yr anghenion hynny yn adlewyrchu'r camau gweithredu y mae'r Comisiynydd wedi galw amdanynt mewn deddfwriaeth ddilynol. Mae'r camau gweithredu hefyd yn adlewyrchu canfyddiadau ymholiad *Fy Iaith, Fy Iechyd* o ran yr angen i gynllunio gwasanaethau yn seiliedig ar ddata dibynadwy a gwybodaeth am anghenion siaradwyr Cymraeg. Mae hefyd yn gam cadarnhaol bod mesurau mewn perthynas â'r Gymraeg yn cael eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth ei hun, gan fod darpariaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg, mewn llawer o feysydd, yn aml wedi ymddangos fel ôl-ystyriaeth ac nid yn rhan annatod o ddatblygiad y ddeddfwriaeth.

Nod Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, deddf arall a gyflwynwyd gan Mark Drakeford AC, yw rhoi ansawdd a gwella gwasanaethau wrth wraidd rheoleiddio gofal cymdeithasol. Mae'n sicrhau bod gwasanaethau'n darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel. Mae rheoliadau sy'n deillio o'r Ddeddf yn gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau mewn perthynas â safon y gofal a'r cymorth y maent yn eu darparu.²² O ran y Gymraeg, nodir yn adran 24 o'r rheoliadau bod yn rhaid i'r darparwr gwasanaeth gymryd camau rhesymol i ddiwallu anghenion iaith unigolion [a bod] rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau y darperir mynediad i unrhyw gymhorthion a chyfarpar sy'n angenrheidiol i unigolyn i hwyluso'r ffordd y mae'r unigolyn yn cyfathrebu ag eraill'. Mae'r Canllawiau Statudol sy'n deillio o'r rheoliadau hyn yn amlinellu dulliau y gellid eu mabwysiadu gan ddarparwyr gwasanaethau i helpu pobl ag anghenion iaith a chyfathrebu.²³

Ymdrin â chwynion

Ym mis Ionawr 2014 wrth gynnal ymholiad *Fy Iaith, Fy Iechyd*, derbyniodd y Comisiynydd gŵyn am yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg ar bresgripsiwn ysgrifenedig yng

²¹ Llywodraeth Cymru, *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol)*:

<https://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part2cy.pdf> (cyrchwyd 18 Gorffennaf 2018).

²² *Rheoliadau Gwasanaethau a Rheoleiddir (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017*: <https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2017/1264/contents/made/welsh> (cyrchwyd 5 Rhagfyr 2018).

²³ Llywodraeth Cymru, *Canllawiau statudol i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol am gydymffurfio â rheoliadau safonau gwasanaeth*, tt. 41–2: <https://gweddill.gov.wales/docs/dhss/publications/180201statutory-guidancecy.pdf> (cyrchwyd 31 Gorffennaf 2019).

Nghymru.²⁴ Roedd plentyn wedi wynebu cryn oedi cyn cael meddyginiaeth gan fferyllydd. Roedd y meddyg teulu wedi ysgrifennu'r presgripsiwn yn Gymraeg fel rhan naturiol o fod yn ymatebol i anghenion ieithyddol y teulu. Gwrthododd y fferyllydd, nad oedd yn siarad Cymraeg, roi'r feddyginiaeth gan nad oedd yn deall y cyfarwyddiadau a ysgrifennwyd ar y presgripsiwn. Felly bu'n rhaid i'r teulu wynebu oedi sylweddol cyn cael cyfieithiad er mwyn prosesu'r presgripsiwn. Ymchwiliodd y Comisiynydd i'r gŵyn a gofynnodd am farn rhai yn y proffesiwn. Er nad oedd y ddeddfwriaeth berthnasol yn gorfodi defnyddio Saesneg yn unig neu'n gwahardd defnyddio'r Gymraeg ar bresgripsiynau, roedd GIG Cymru wedi cyhoeddi Canllawiau, sef Safonau Ysgrifennu Presgripsiynau Cymru Gyfan, a oedd yn nodi y dylai cyfarwyddiadau fod yn Saesneg. Roedd y canllawiau hyn yn seiliedig ar ganllawiau a gyhoeddwyd gan Lyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain²⁵ gan NICE a oedd yn dweud y 'dylai presgripsiynau fod yn Saesneg yn ddelfrydol'. Roedd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, fodd bynnag, yn datgan na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ym mis Chwefror 2014, gohebodd y Comisiynydd â Phrif Weinidog Cymru a oedd ar y pryd yn gyfrifol am y Gymraeg yn y Llywodraeth a chynhaliwyd cyfarfod rhyngddynt ar y mater. Yn y pen draw cytunodd Llywodraeth Cymru ar gyfres o benderfyniadau, sef y byddai'n edrych ar greu geiriadur ar gyfer cyfarwyddiadau Cymraeg ar bresgripsiwn ar gyfer systemau gweinyddu ac y byddai'n adnabod ac yn hyrwyddo darpariaeth fferylliaeth Gymraeg. Cytunodd y Llywodraeth hefyd i fapio sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu presennol a chytuno ar system i edrych ar nifer y myfyrwyr Cymraeg eu hiaith sy'n hyfforddi i fod yn fferyllwyr.

Cafodd cwyn arall i'r Comisiynydd sylw yn y cyfryngau hefyd yn ystod 2014, sef bod meddyg a oedd yn cael ei gyflogi gan Fwrdd Iechyd wedi ymyrryd â rhyddid unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg gydag unigolyn arall, sef plentyn yn yr achos hwn. Mae Rhan 6 o Fesur y Gymraeg yn caniatáu ceisiadau i'r Comisiynydd ymchwilio i a yw person wedi ymyrryd â rhyddid un unigolyn i gyfathrebu yn Gymraeg ag unigolyn arall. Yn yr achos hwn, honnwyd bod meddyg wedi dweud wrth riant a phlentyn na ddylent siarad Cymraeg â'i gilydd.²⁶ Ymchwiliodd y Comisiynydd i'r achos ac, wrth wneud hynny, ystyriodd y dystiolaeth a gafodd gan yr achwynydd a chan y bwrdd iechyd. Dyfarnodd y Comisiynydd 'bod y meddyg wedi ymyrryd â rhyddid y riant a'r plentyn i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg â'i gilydd'.²⁷ Rhoddodd y Comisiynydd farn ar yr ymyrraeth a daeth i'r casgliad nad oedd sail gyfreithiol i gyfiawnhau'r ymyrraeth â rhyddid y riant a'r

²⁴ Mae Atodiad 4 i *Fy Iaith, Fy Iechyd* yn nodi graddau'r gŵyn yn fanylach a sut yr ymdriniwyd â'r gŵyn.

²⁵ Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Gofal: <https://www.nice.org.uk/> (cyrchwyd 22 Chwefror 2018).

²⁶ O dan adran 111 o'r Mesur:

Caiff unigolyn (P) wneud cais i'r Comisiynydd yn gofyn i'r Comisiynydd ymchwilio i a yw person (D) wedi ymyrryd â rhyddid P i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg ag unigolyn arall (R) (yr "ymyrraeth honedig").

Yn y cyd-destun hwn, ystyr cyfathrebiad Cymraeg yw cyfathrebiad yn Gymraeg rhwng dau unigolyn yng Nghymru sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd wrth ymgymryd â'r cyfathrebiad hwnnw.

²⁷ *Dyfarniad ac adroddiad Comisiynydd y Gymraeg ar ymchwiliad i gais o dan adran 111 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011* (14 Hydref 2014):

<http://www.comisiynyddygyrmaeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/20141014%20DG%20C%20Dyfarniad%20ac%20adroddiad%20-%20Ymchwiliad%2032.pdf> (cyrchwyd 5 Rhagfyr 2018).

plentyn i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd er mwyn diogelu iechyd y plentyn, a bod yr hyn a ddigwyddodd yn anghymesur. Rhoddodd y Comisiynydd gyngor hefyd i'r Bwrdd Iechyd yn unol ag adran 117(7) o'r Mesur. Gwnaed hyn gan obeithio y gellid osgoi cwynion o'r fath yn y dyfodol.

Mae cwynion a phryderon eraill a gafwyd yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn ymwneud â meysydd megis dulliau asesu a diagnostig yn ogystal â diffyg darpariaeth cyfrwng Gymraeg mewn gofal plant, iechyd meddwl a dementia. Gellir dod o hyd i wybodaeth am ymchwiliadau statudol y Comisiynydd i fethiant sefydliad i weithredu ei gynllun iaith Gymraeg neu i gydymffurfio â safonau ar wefan y Comisiynydd.

Fframwaith Rheoleiddio Comisiynydd y Gymraeg

Mae Fframwaith Rheoleiddio'r Comisiynydd²⁸ yn amlinellu sut y bydd y Comisiynydd yn gweithredu'r rhaglen waith ar gyfer rheoleiddio safonau'r Gymraeg a chynlluniau iaith Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys cynnal astudiaethau thematig ar grwpiau o safonau er mwyn helpu sefydliadau i gydymffurfio'n dda, a gwaith ar ymdrin â phroblemau systematig sy'n rhwystro sefydliadau rhag gweithredu safonau a defnyddio'r iaith. Drwy gyfarfodydd rheolaidd â sefydliadau iechyd sy'n ddarostyngedig i gynlluniau iaith ar hyn o bryd, bu'n bosibl casglu gwybodaeth am faterion sy'n eu rhwystro rhag darparu gwasanaethau yn Gymraeg a rhannu enghreifftiau o arfer da. Nid oes amheuaeth nad yw rhai byrddau iechyd wedi cymryd camau ymlaen o ran eu darpariaeth dros y blynyddoedd. Mae llawer, er enghraifft, wedi datblygu unedau penodedig i weithio gyda staff i ddatblygu darpariaeth yn y Gymraeg ac i ddarparu gwasanaethau cyfieithu. Mae'r diffyg ystyriaeth a roddwyd i'r Gymraeg wrth ddatblygu systemau technoleg gwybodaeth yn sicr wedi bod yn bwnc sydd wedi bod yn rhwystr o ran cofnodi gwybodaeth am sgiliau iaith y gweithlu a dewis iaith cleifion yn y sectorau iechyd a gofal. Mae hyn wedi bod yn rhwystr i waith byrddau iechyd ac awdurdodau lleol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau ac o ran eu gallu i fodloni fframwaith *Mwy na geiriau* yn llawn. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd gan y Comisiynydd ar y cyd â rhanddeiliaid perthnasol i ddod o hyd i atebion i broblemau systemig sy'n ymwneud â chofnodi dewis iaith. Mae hon yn sicr yn broblem sy'n peri cryn bryder yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol ac, ar y cyd â'r gwaith y mae'r sector ei hun yn ei wneud o ganlyniad i *Mwy na geiriau*, gobeithio y bydd yn arwain at newidiadau a gwelliannau.

²⁸ *Fframwaith Rheoleiddio Comisiynydd y Gymraeg* (Ebrill, 2016) <http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Fframwaith%20rheoleiddio.pdf> (cyrchwyd 28 Tachwedd 2018).

Safonau'r Gymraeg

Mae'r cyfraniad hwn wedi'i ysgrifennu ar adeg pan fo cylch gwaith y Comisiynydd ym maes iechyd yn newid o ganlyniad i osod safonau'r Gymraeg²⁹ ar gyrrff iechyd, a fydd yn dod i rym yn ystod gwanwyn 2019 yn unol â'r drefn y manylir arni ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae hyn yn dilyn y safonau a ddaeth i rym ar gyfer awdurdodau lleol ac, felly, ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, ym mis Mawrth 2016. Mae'r safonau a geir mewn rheoliadau³⁰ yn ymwneud â gweithgareddau sefydliadau iechyd mewn pedwar maes gwaith.³¹ Ar gyfer y sector iechyd, maent yn cynnwys safonau cyflenwi gwasanaethau ar gyfer gweithgareddau megis gohebiaeth, galwadau ffôn, cyfarfodydd, gwefannau a chyfryngau cymdeithasol. Mae safonau llunio polisi yn ymwneud â sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi, wrth lunio polisïau newydd neu adolygu neu ddiwygio polisïau, i'w heffaith ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae safonau gweithredu yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg o safbwynt gweinyddiad mewnol corff megis ym maes adnoddau dynol a gweithgareddau hyfforddi. Mae safonau cadw cofnodion yn ymwneud â chadw cofnodion am safonau penodedig eraill a chwynion yn ymwneud â chydymffurfiaeth, a chwynion eraill yn ymwneud â'r Gymraeg. Dylid pwysleisio nad yw'r safonau'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau clinigol sefydliadau iechyd.

Mae adroddiadau sicrwydd blynyddol y Comisiynydd³² yn casglu ac yn dadansoddi data meintiol ac ansoddol o ffynonellau amrywiol er mwyn rhoi darlun o'r graddau y mae sefydliadau cyhoeddus yn darparu gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg ac o ansawdd y gwasanaethau hynny. Eu bwriad yw tynnu sylw sefydliadau at arferion llwyddiannus, a lle mae angen cryfhau trefniadau cydymffurfio, er mwyn eu galluogi i gydymffurfio a gwella profiadau defnyddwyr. Mae'r adroddiadau hefyd yn rhoi tystiolaeth i wleidyddion a llunwyr polisïau eraill ynghylch y graddau y mae sefydliadau cyhoeddus yn darparu gwasanaethau o ansawdd da yn y Gymraeg, ac i ba raddau y mae'r gyfundrefn safonau yn llwyddiannus. Mae tystiolaeth glir o'r adroddiadau sicrwydd bod y gyfundrefn safonau wedi gwella gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg a ddarperir gan y sefydliadau hynny sydd eisoes yn cydymffurfio â safonau. Mae, felly, gryn ddisgwyliad y bydd newidiadau yn y sector iechyd o ganlyniad i osod safonau ar sefydliadau iechyd. Yn ystod y cyfnod sy'n arwain at wanwyn 2019, ac wedi hynny pan fydd y safonau'n cael eu gorfodi, bydd y Comisiynydd yn cynnal ymgyrch benodol i godi ymwybyddiaeth o'r hawliau sy'n deillio o'r safonau. Mae ymgyrchoedd blaenorol wedi cynnwys hysbysebion ar y teledu, y

²⁹ I gael gwybodaeth am y broses o weithredu'r safonau, gweler:

<http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Sefydliadau/Pages/Rheoliadau.aspx> (cyrchwyd 31 Gorffennaf 2019).

³⁰ Gweler

<http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Sefydliadau/Pages/Safonau%20Gymraeg.aspx> am ragor o wybodaeth am safonau a hefyd am ddolenni at y rheoliadau. Mae'r safonau sy'n berthnasol i gyrrff iechyd i'w gweld yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018:

<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2018/441/made/welsh?view> (cyrchwyd 31 Gorffennaf 2019).

³¹ Mae safonau hyrwyddo sy'n ymwneud â sut mae sefydliadau yn bwriadu hyrwyddo'r Gymraeg ac i hwyluso'r defnydd o'r iaith yn ehangach yn eu hardal hefyd yn berthnasol i awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol sy'n dod o fewn cylch gorchwyl Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.

³² <http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Sefydliadau/Cydymffurfio/sicrwydd/Pages/AdroddiadAuSicrwydd.aspx> (cyrchwyd 5 Rhagfyr 2018).

cyfryngau print a'r cyfryngau cymdeithasol³³ yn ogystal â phresenoldeb mewn digwyddiadau perthnasol a drefnwyd ymlaen llaw, megis cynadleddau ac, yn achos gweithgareddau myfyrwyr colegau a phrifysgolion, mewn digwyddiadau fel gwyliau cerddoriaeth.

Wrth i'r safonau iechyd ddod i rym yn 2019, mae'n arwyddocaol y bydd yn ofynnol i ddarparwyr gofal iechyd sylfaenol *hefyd* gydymffurfio â dyletswyddau na ellir eu gorfodi arnynt ond y cytunwyd arnynt rhyngddynt a Llywodraeth Cymru³⁴. Mae'r syniad y byddai cyrff proffesiynol yn derbyn dyletswyddau o'r fath, er nad oes modd eu gorfodi, yn gam mawr ymlaen o'r naratif a oedd yn gefnlen i'r gwaith ar ymholiad *Fy laith, Fy lechyd* yn 2014.

Dyfal donc

Gan edrych yn ôl ar ganfyddiadau'r adroddiad ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, mae'n siomedig braidd bod llawer o'i ganfyddiadau mor berthnasol heddiw ag yr oeddent bryd hynny. Amlygir y pwynt hwn yng ngwaith ymchwil mwyaf a diweddaraf y Comisiynydd i'r maes iechyd a gofal cymdeithasol ers cyhoeddi *Fy laith, Fy lechyd*. Ym mis Tachwedd 2018, mewn cydweithrediad â Chymdeithas Alzheimer Cymru, cyhoeddodd y Comisiynydd adroddiad yn edrych ar y gofal a gynigir i siaradwyr Cymraeg sydd â dementia. Fel yn achos yr ymholiad, roedd llais defnyddwyr yn ganolog i'r adroddiad a'r gwaith yn cymryd agwedd gynhwysol. Gweithiodd y Comisiynydd mewn partneriaeth â sefydliad yn y trydydd sector a oedd yn arbenigo yn y maes a bu hefyd yn ymgynghori â bord gron o arbenigwyr i lunio argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Galwodd Gwerfyl Wyn Roberts hyn yn 'enghraifft dda o arweinyddiaeth gref gan y Comisiynydd i hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg ar gyfer defnyddwyr mwyaf bregus ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.³⁵ Canfu adroddiad *Gofal Dementia Siaradwyr Cymraeg*³⁶ fod deddfwriaeth a pholisi sydd yn eu lle i alluogi defnyddio'r Gymraeg yn darparu fframwaith grymus i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu yn y Gymraeg. Fodd bynnag, datgelodd yr adroddiad fylchau yn y ffordd y caiff y polisïau a'r ddeddfwriaeth hyn eu gweithredu ar lawr gwlad, gan arwain at fylchau yn y gofal a ddarperir ar hyn o bryd i unigolion sy'n byw gyda dementia. Daeth i'r casgliad bod angen i'r polisïau a'r ddeddfwriaeth hon gael eu gweithredu'n llawn, eu hadolygu a'u harolygu'n fwy effeithiol ac y dylid cymryd camau i ymateb i ganfyddiadau'r adolygiadau hyn ac i'r argymhellion a wnaed ac a weithredwyd. Mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu canfyddiadau a geir yn ymholiad *Fy laith, Fy lechyd* yn 2014.

³³ Gweler, er enghraifft, yr ymgyrch ar YouTube oedd yn targedu myfyrwyr colegau a phrifysgolion pan ddaeth safonau i rym ar gyfer prifysgolion a cholegau yn 2018:

<https://www.youtube.com/watch?v=8fpMF4yDUbU> (cyrchwyd 5 Rhagfyr 2018).

³⁴ Ewch i: <http://cofnod.cynulliad.cymru/WrittenQuestion/76361> (cyrchwyd 5 Rhagfyr 2018) am ragor o wybodaeth am y contractau gofal sylfaenol.

³⁵ Sylwadau a dderbyniwyd mewn e-bost gan Gwerfyl Wyn Roberts ar 28 Tachwedd 2018.

³⁶ <http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Adroddiad%20dementia%20a%27r%20Gymraeg.pdf> (cyrchwyd 10 Tachwedd 2018).

Mae'r adroddiad gofal dementia hefyd yn amlygu angen a nodwyd yn *Fy Iaith, Fy Iechyd* ac yn fframwaith *Mwy na Geiriau* sy'n parhau i fod yn ganolog i'r gallu i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg, sef yr angen i ddatblygu'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol a hyrwyddo eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd y cynnig rhagweithiol. Mae camau gweithredu perthnasol yn *Mwy na Geiriau* yn cynnwys yr angen i'r Llywodraeth weithio gyda darparwyr addysg i ddatblygu cyrsiau hyfforddi sy'n adlewyrchu anghenion y gweithlu. Mae llawer o waith wedi'i wneud i wella'r ddarpariaeth addysgol a'r adnoddau yn y Gymraeg ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar y cyd â phrifysgolion Cymru.³⁷ Fodd bynnag, er gwaethaf yr ymrwymiad hwn yn *Mwy na Geiriau*, mae data diweddar am feddygon teulu,³⁸ er enghraifft, yn dangos na fu llawer o newid yn ystod y pedair blynedd diwethaf yn nifer y meddygon teulu sydd ag unrhyw allu i siarad Cymraeg fesul 10,000 o'r boblogaeth ac yn wir bod llai o feddygon teulu yn 2017 gydag unrhyw allu yn y Gymraeg nag yn 2016. Yn 2017 y cyfartaledd oedd 1.1 o feddygon teulu Cymraeg fesul 10,000 o'r boblogaeth, ac roedd hyn o gymharu â chyfartaledd Cymru o 6.2 meddyg teulu am bob 10,000 o'r boblogaeth gyfan yn 2017. Gellir gweld darlun tebyg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol lle ar 31 Mawrth 2017, roedd gan 16% o staff gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol sgiliau yn y Gymraeg, er gwaethaf y ffaith bod 19% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Mae sefydlu Addysg a Gwella Iechyd Cymru ym mis Hydref 2018 yn cynnig rhywfaint o obaith y bydd mwy yn cael ei wneud i sicrhau bod mwy o siaradwyr Cymraeg yn dilyn cyrsiau gofal iechyd a bod mwy yn cael ei wneud i ddatblygu sgiliau iaith y gweithlu gofal iechyd sydd eisoes yn bodoli. Mae'r sefydliad yn gyfrifol am arwain y gwaith o addysgu, hyfforddi, datblygu a llywio'r gweithlu gofal iechyd yng Nghymru. Yn yr un modd, mae cymwysterau gofal newydd sy'n benodol i Gymru, a chynlluniau Gofal Cymdeithasol Cymru a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gynnig cyrsiau Cymraeg am ddim i weithwyr gofal, hefyd yn cynnig rhywfaint o obaith am welliant ym maes gofal cymdeithasol.

Fel y nodwyd ar ddechrau'r bennod hon, mae sicrhau hawliau siaradwyr Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn broses yn hytrach nag yn ddigwyddiad. Fel y daeth yr adroddiad ar ddementia i'r casgliad, mae'r fframwaith ar waith drwy ddeddfwriaeth a pholisïau i sicrhau hawliau siaradwyr Cymraeg i gael mynediad at wasanaethau yn Gymraeg, ond mae'r angen am fwy o weithredu ar lawr gwlad ac ar lefel strategol yn parhau. Cymerwyd camau gan y Comisiynydd drwy ddarpariaethau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a chan eraill o ganlyniad i'w cylch gwaith a fframwaith *Mwy na Geiriau*, i ddatblygu atebion ymarferol i hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a sicrhau hawliau ieithyddol. Er ei bod hi'n anodd mesur y gwelliannau a wnaed yn y maes yn fanwl ar hyn o bryd, mae ymdeimlad bod agweddau wedi newid a

³⁷ Mae'r Coleg yn gweithio mewn partneriaeth â phrifysgolion yng Nghymru i wella cyfleoedd astudio drwy gyfrwng y Gymraeg drwy, er enghraifft, ariannu ysgoloriaethau i israddedigion ac ôl-raddedigion a datblygu a chyllido darlithwyr cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer y dyfodol. I gael rhagor o wybodaeth am waith y Coleg yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol, ewch i: <http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/astudio/trwyrwymraeg/pynciau/iechyd/> (cyrchwyd 5 Rhagfyr 2018).

³⁸ Meddygon teulu yng Nghymru, ar 30 Medi 2017: <https://gov.wales/docs/statistics/2018/180426-general-medical-practitioners-2006-2017-en.pdf> (cyrchwyd 5 Rhagfyr 2018).

bod mwy o werthfawrogiad ac ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr iaith wrth ddarparu gofal. Fel y dywed Dr Llinos Roberts, sy'n feddyg teulu yn y gorllewin:

Does dim amheuaeth bod newid wedi bod yn agwedd a disgwyliadau siaradwyr Cymraeg ynghylch beth y gallen nhw ddisgwyl gan y Gwasanaeth Iechyd. Yn draddodiadol rydym wedi ein cyflyru i fod yn ddiolchgar am unrhyw fath o wasanaeth iechyd, ac wedi bod yn gyndyn i herio hyn, yn enwedig ar sail derbyn gwasanaeth yn Gymraeg.

Ond mae agweddau yn dechrau newid, a hyn yn sgil ymdrechion nifer o gyrff gan gynnwys y Comisiynydd sydd wedi llwyddo codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd derbyn gofal iechyd yn newis iaith y claf [...] Fel un sy'n gweithio yn y Gwasanaeth, mae hi wedi dod yn amlwg bod y gwaith yma wedi dechrau ymdreiddio i agweddau cleifion. Rydw i wedi gweld mwy a mwy o unigolion yn gofyn am wasanaeth Cymraeg, ac yn fodlon cwyno os nad oes gwasanaeth Cymraeg ar gael. Doedd yr agwedd yma ddim yn gyffredin yn y gorffennol, ac rydw i'n grediniol bod y gwaith sydd wedi cael ei wneud yn y maes wedi dylanwadu ar hyn.³⁹

Daw tymor Meri Huws fel Comisiynydd i ben ym mis Mawrth 2019, ychydig fisoedd yn unig cyn y bydd gofyn i sefydliadau iechyd gydymffurfio â'r safonau iaith. Wrth i'r bennod nesaf yn y broses o sicrhau hawliau ieithyddol siaradwyr Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol agor, y gobaith yw y byddwn yn gallu mynd y tu hwnt i newid agwedd, rhywbeth y gellir ei briodoli heb os i waith y Comisiynydd, i greu newidiadau parhaol, gwirioneddol, drwy ddarpariaethau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a chefnogaeth wleidyddol, weinyddol ac ymarferol lawn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Dyfal Donc a dyrr y garreg.

³⁹ Gohebiaeth a dderbyniwyd gan Dr Llinos Roberts mewn e-bost ar 29 Tachwedd 2018.

Lowri W. Williams

Mae Lowri'n gweithio i Gomisiynydd y Gymraeg ers i'r swyddfa agor yn 2012. I ddechrau, hi oedd yn arwain gwaith y Comisiynydd ym maes isadeiledd iaith, sef cyfieithu, terminoleg, technoleg gwybodaeth a thopograffeg a hefyd yn cefnogi'r Comisiynydd i gynnal ysgrifenyddiaeth Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith (IALC). Ar hyn o bryd mae hi'n arwain gwaith polisi'r Comisiynydd. Cyn gweithio i'r Comisiynydd bu'n gweithio i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ym maes isadeiledd. Cyn hynny bu'n gweithio fel swyddog ymchwil ym Mhrifysgol Bangor ac fel Swyddog Iaith Gymraeg gyda chronfa'r loteri.

Graddiodd Lowri yn y Gymraeg a'r Sbaeneg o Brifysgol Aberystwyth cyn dilyn MA mewn Sbaeneg. Mae hi wedi byw a gweithio yng Ngwlad y Basg ac wedi teithio'n helaeth yn America Ladin. Mae hi'n siarad Cymraeg, Saesneg a Sbaeneg yn rhugl.

Mae'n un o gyfarwyddwyr *Llety Arall*, cymdeithas er budd i'r gymuned sydd wedi sefydlu llety ar gyfer pobl sydd am brofi natur ddiwylliannol ac ieithyddol unigryw tref Caernarfon lle mae hi bellach yn byw.